

Cyngor Cymuned Pentir

Cynhelir cyfarfod o'r Is Bwyllgor Cyllid yng Nganolfan Gymued Penrhos
am 7.00pm Nos Fercher 22^{ain} o Chwefror 2023

Agenda

- 1) Presennol
- 2) Ymddiheuriadau
- 3) Cod Ymddygiad
- 4) Cofnodion Cyfarfod diwethaf 25-01-2023
- 5) Materion yn codi o'r cofnodion
- 6) Adroddiad Ariannol
 - Mantolen Ariannol
- 7) Archwyllo
- 8) Cofrestr Risg/Polisia
 - a. Cynllun Hyfforddiant
- 9) Taliadau angen sylw
 - a. Cyflog Chwefror £ 651.84
 - b. HMRC M 11 £ 163.00
 - c. Howard Huws Cyfieithu £ 40.00
 - d. Unllais Cymru Hyfforddiant £ 35.00
 - e. Hughes & Hughes £ 400.00
 - f. Trydan Glasinfryn -pwy sy'n talu £140.00
 - g. Aelodaeth Unllais £ 530.00
- 10) Ceisiadau Nawdd
 - a. Rachel Heal – Bei ci Ysgol Hafod Lon
 - b. Caitlin Sherret Cymorth Canser McMillan
 - c. Grwp Arlunio Glasinfryn
 - d. Canolfan Glasinfryn
 - e. Grwp Ioga Glasinfryn
 - f. Cylch Glasinfryn
 - g. Canolfan Penrhos
- 11) Prosiectau
 - i. Ysgol Y Faenol
 - ii. Septic tanc Glasinfryn
 - iii. Cae chwarae Caerhun
 - iv. Capel y Fynwent
 1. Llawr newydd
 2. Trydannol symud goleuadau/Goleuadau newydd
 3. Paentio
 - v. Cysgodfannau
 1. Cylchlythyru
 2. Cyngor Gwynedd
 - h. Cwt y Fynwant
 1. Amcanbris
- 12) I'w trafod hefyd

Cyngor Cymuned Pentir

Cofnodion cyfarfod o'r Is Bwyllgor Cyllid yng Nganolfan Gymued Penrhos am 7.00pm Nos Fercher 25^{ain} o Ionawr 2023

1. Presennol Cyng L A James (Cadeirydd) Cyng I Ellis; Cyng B. Jones; Cyng D Jones-Morris; Cyng D W Jones Cyng J Lewis
2. Ymddiheuriadau
Cyng J Pierce:
3. Cod Ymddygiad Esbonwyd y drefn i ddatgan buddiant a bod ffurflenni ar gael gan y Clerc Dim datgan buddiant
4. Cofnodion Cyfarfod diwethaf 30-11-2022
 - i. Cynnigwyd eu cywirdeb gan y Cyng D Jones Morris ag eilwyd gan y Cyng B.Jones
5. Materion yn codi o'r cofnodion
Ar y cysgodfannau nodwyd byddai angen cylchlythyr trigolion cyfagos unwaith byddai cytundeb gan Cyngor Gwynedd ynglyn a'u lleoliad
Rhanwyd llythyr oedd y Clerc eisioes wedi ei ddarparu ar gyfer y trigolion
6. Adroddiad Ariannol
Mantolen ARIannol Roedd copia o'r fantolen ariannol wedi ei rhannu yn dangos £38,712.72c yn y Cyfrif Cyfredol a £45,125.79c yn y cyfrif cadw yn dilyn derbyn £61.42c o Log
Hawlio Praesept Y praesept am £55K wedi ei hawlio yn sgil penderfyniad y Cyngor Llawn i gadw at yr un swm a chadarnhad wedi ei dderbyn o'n cais
7. Archwyllo
 - b. Dim diweddariad er i ni wneud ymholiad
8. Cofrestr Risg/Polisia
 - i. Cynllun Hyfforddiant
Atgoffwyd pawb i gwblhau eu ffurflen asesu a'i dychwelyd fel gall y Clerc symud ymlaen i greu y Cynllun Hyfforddiant
 - ii. Diogelwch cerrig beddi JLR Bangor wedi cychwyn ar y gwaith ag yn gobeithio cwblhau unwaith bydd y tywydd yn altro
9. Taliadau angen sylw
 - c. Argymhellwyd bod y canlynol yn cael eu talu Cyflog Ionawr £ 651.84
 - d. HMRC M 10 £ 163.00 Scottishpower £ 107.29 Costau Ink £ 112.48 a
 - e. D W Lewis Torri gwair llwybrau Pentir a llau llwybrau y fynwent £ 1206.00
10. Ceisiadau Nawdd
 - i. Radio Ysbyty Gwynedd Argymell i'r Cyngor Llawn i gyfranu £300.00
 - ii. Manter Iaith Bangor Argymell i'r Cyngor Llawn i gyfranu £300.00
 - iii. Ambiwllans Awyr Plant Argymell i'r Cyngor Llawn i gyfranu £300.00
Cyng D Jones Morris yn datgan buddiant ar y mater yma a heb gymeryd rhan yn y trafodaethau
11. Prosiectau
 - a) Ysgol Y Faenol

Cyfarfod wedi ei gynnal yn rhithiol neithiwr a'r cyfarfod hwnnw wedi pasio i godi capasiti'r ysgol i 315 er gwaetha'r ffaith nad yw'r prosiect wedi ei gwblhau i sicrhau fod maes parcio addas ar gyfer Ysgol o'r maint yma.

Mynegwyd cryn aflonyddwch ynglyn a'r mater a'r ddadl nad oedd dim rheswm cyfreithiol rhag codi'r capasiti.

Mae'n amlwg bellach fod rhaid cael esboniad cyfreithiol pam fod maes -parcio y ganolfan bresennol yn cael ei ddefnyddio fel maes-parcio yr Ysgol sy'n golygu na all ein defnyddwyr presennol ni ddim ei ddefnyddio

Cytunwyd i'r Clerc gysylltu a'n Cyfreithwyr i drefnu cyfarfod rhyngddom ag ef a gofyn iddo hefyd drefnu cyfarfod rhyngddom ni, fo a swyddogion Gwynedd.

b) Cae chwarae Caerhun

Cytundeb wedi ei gynnig a'i dderbyn gan Gwmni Lleol ond efallai bydd yn llithro i'r flwyddyn ariannol nesaf

c) Capel y Fynwent

a. Kimberley Gulf

Archwiliad o'r coed gweladwy wedi ei wneud ag adroddiad wedi ei derbyn – dim diffygion amlwg

b. Trydannol

Gwaith trydannol wedi cychwyn

Ni chaiff y trydannwr ond archwilio sutemau trydan domestig a felly wedi cysylltu a Chwmni Lleol arall sy'n gallu gwneud adeiladau cyhoeddus i archwilio Y Capel unawith bydd y trydannwr wedi cwblhau a hefyd Canolfan Penrhos a Chanolfan Glasinfryn

c. Gwaith saer

Y gwaith yma hefyd ei osod ag wedi cychwyn

Wedi cychwyn hefo tynnu'r meinciau yn y cefn i ddarganfod beth oedd o dan y llawr

Gwagle sydd ag o bosib dan y cyfan

Holi am bris i'r dyfodol i sicrhau cael llawr ar un lefel yn hytrach na cael stepia

i. Cysgodfannau

1. Cylchlythyru

Cylchlythyr yn barod unwaith bydd cyfarfod safle i gytuno ar leoliadau wedi ei wneud hefo'r Cyngor Sir Dim diweddariad am Nant y Mownt yn Capel Graig

2. Cyngor Gwynedd

Clerc wedi cysylltu ond heb gael ymateb

12 I'w trafod hefyd

Cwt y Fynwant

Mae difrod wedi ei wneud i do un o'r siediau allannol yn y fynwent lle fod llechi wedi eu malu Cytunwyd holi am bris i dynnu'r llechi sydd ar ol ag ail doi hefo sheetia haearn

Clerc i holi Hughes & Hughes am bris

Daeth y cyfarfod i ben 8.50